

## Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

**Arweiniad:** safonau mynediad, llywodraethu, tystiolaeth ac adrodd

### Cynnwys

<b>Diben y ddogfen hon:</b> .....	2
<b>Trosolwg o ddata gweinyddol cyfiawnder teuluol</b> .....	2
<b>Prosesau mynediad a llywodraethu Banc Data SAIL</b> .....	2
Cwmpasu prosiect SAIL.....	2
Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth SAIL (IGRP).....	3
Data ar lefel poblogaeth .....	3
<b>Grŵp Defnyddwyr Data Gofal Cymdeithasol Plant a Chyfiawnder Teuluol (Cymru)</b> .....	3
<b>Adrodd ar ymchwil a'i chyhoeddi: safonau</b> .....	4
Ar gyfer adroddiadau.....	4
Ar gyfer erthyglau mewn cyfnodolion .....	4
Cydnabyddiaethau / Awduraeth .....	5
Lliniaru risg datgelu ym mhob allbwn.....	6
<b>Lledaenu</b> .....	6
<b>Cyfeiriadau</b> .....	7

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Prifysgol Caerhirfryn:

Yr Athro Karen Broadhurst (Prif Ymchwilydd) [k.broadhurst@lancaster.ac.uk](mailto:k.broadhurst@lancaster.ac.uk)

Dr Linda Cusworth (y Prif Swyddog Cyfrifol) [l.cusworth@lancaster.ac.uk](mailto:l.cusworth@lancaster.ac.uk)

Prifysgol Abertawe:

Dr Lucy Griffiths [lucy.griffiths@abertawe.ac.uk](mailto:lucy.griffiths@abertawe.ac.uk)

Wedi'i Ddiwygio: Mis Ebrill 2021

## Diben y ddogfen hon:

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r arferion a'r arweiniad ynghylch ansawdd a sicrhau ansawdd ymchwil a ddefnyddir gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) - cydweithrediad rhwng prifysgolion Caerhirfryn ac Abertawe sy'n ymgymryd ag ymchwil ym maes cyfiawnder.

Dylai'r safonau hyn gael eu mabwysiadu gan:

- Ymchwilwyr yn nhîm y prosiect Partneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) a leolir ym Mhrifysgol Caerhirfryn ac ym Mhrifysgol Abertawe.
- Yr holl ymchwilwyr eraill sy'n cyrchu data'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo'r Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS Cymru a Lloegr) yn y Banc Data Cysylltu Gwybodaeth Ddiennw'n Ddiogel (SAIL)<sup>1</sup> sy'n derbyn cymorth gan yr FJDP.

## Trosolwg o ddata gweinyddol cyfiawnder teuluol

Mae data gweinyddol yn cyfeirio at wybodaeth am unigolion neu weithgarwch sefydliadol, sy'n cael ei chasglu'n rheolaidd gan y llywodraeth, asiantaethau statudol neu asiantaethau eraill at eu dibenion sefydliadol eu hunain.<sup>2</sup> Fel rheol, mae sefydliadau cyhoeddus, megis y llysoedd a gwasanaethau cysylltiedig, yn rheoli cofnodion achos unigol sy'n cynnwys manylion demograffig ond hefyd fanylion am ryngweithio'r unigolyn â gwasanaethau eraill. Mae'r data personol hwn yn hynod werthfawr ar gyfer deall nodweddion defnyddwyr llysoedd, teithiau unigolion drwy'r systemau cyfiawnder, cynrychiolaeth gyfreithiol a chanlyniadau profiadau o'r system cyfiawnder. Mae data arall yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a gynhyrchir i fodloni gofynion cyrff rheoleiddiol neu archwilwyr allanol.

Mae'r FJDP yn cefnogi cyrchu a defnyddio data am gyfiawnder teuluol a gedwir ym Manc Data SAIL, sydd eisoes wedi cronni amrywiaeth helaeth o ddata a gesglir yn rheolaidd ym meysydd iechyd, addysg, gofal llywodraethol a chymdeithasol, mewn perthynas ag unigolion sy'n byw yng Nghymru. Mae ychwanegu data am gyfiawnder teuluol a gedwir ym Manc Data SAIL yn cynyddu mynediad at ddata gweinyddol craidd am gyfiawnder teuluol ar raddfa genedlaethol ac, am y tro cyntaf, yn cynnig potensial i gynnal astudiaethau cyfoethog a newydd drwy gysylltu'r data hyn ar lefel cofnodion unigol.

## Prosesau mynediad a llywodraethu Banc Data SAIL

### Cwmpasu prosiect SAIL

Disgwylir i'r holl ymchwilwyr a phrosiectau sy'n dymuno cyrchu data ym Manc Data SAIL gael trafodaeth gwmpasu ag aelod o'r tîm ym Mhrifysgol Abertawe a, lle bo cydweithrediad drwy'r FJDP yn rhan o'r prosiect, dylech e-bostio [fjdp@abertawe.ac.uk](mailto:fjdp@abertawe.ac.uk). Trafodir syniad a dichonoldeb y prosiect, a chaiff dogfen gwmpasu ei llunio, a fydd yn amlinellu gweithgareddau sy'n ymwneud â Banc Data SAIL, y ffynonellau data gofynnol, yr adnoddau a ddefnyddir a'r costau.

---

<sup>1</sup> Mae rhagor o wybodaeth am safonau, telerau, polisiau a gweithdrefnau SAIL ar gael yn: <https://saildatabank.com/>

<sup>2</sup> Woollard, M. (2014) 'Administrative Data: Problems and Benefits. A perspective from the United Kingdom', yn Dusa, A. et al. (goln.) *Facing the future: European research infrastructures for the humanities and social sciences*. Berlin: SCIVERO, t. 49

### Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth SAIL (IGRP)

Yn dilyn y broses gwmpasu, bydd angen i'r ymchwilydd gwblhau a chyflwyno cais i Fanc Data SAIL, a gaiff ei ystyried gan y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth annibynnol (IGRP). Mae'r panel yn adolygu cynigion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu Gwybodaeth a'u bod yn cynrychioli defnydd priodol o ddata er lles y cyhoedd. Mae'r IGRP yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol a rheoleiddiol, darparwyr data, gan gynnwys rhai o'r GIG, ac aelodau'r cyhoedd.

Mewn perthynas â methodoleg, mae'r cynnig yn darparu amlinelliad manwl i'r IGRP o nodau'r prosiect, y data a ddefnyddir, y cynlluniau dadansoddi a dosbarthu.

Pan fydd cynnig wedi'i gymeradwyo gan yr IGRP ac unrhyw ddarparwyr data y mae angen sicrhau cymeradwyaeth ychwanegol i ddefnyddio eu data, bydd angen i holl ddefnyddwyr a enwir y prosiect ddarparu copi o'u CV, tystiolaeth eu bod wedi cwblhau Hyfforddiant Ymchwilydd Diogel a gofynnir iddynt gwblhau a llofnodi cytundeb defnyddiwr; yna rhoddir mynediad iddynt at ddata cymeradwy drwy Borth SAIL.

Sylwer, mae'r holl ddata CAFCASS a gedwir yn y Banc Data yn ddata craidd cyfyngedig, felly bydd angen caniatâd gan ddarparwyr y data i'w ddefnyddio.

Mae rhagor o wybodaeth am broses cael mynediad at ddata am gyfiawnder teuluol ym Manc Data SAIL, a'r cymorth y gall yr FJDP ei ddarparu, ar gael yn ein Taith Defnyddiwr:

[https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2020/06/User-journey\\_external\\_projects-1.pdf](https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2020/06/User-journey_external_projects-1.pdf)

### Data ar lefel poblogaeth

Mae Banc Data SAIL yn cynnwys data iechyd a gweinyddol dienw helaeth am boblogaeth Cymru; mae'r data hwn ar gael ar ffurf ddiennw drwy blatfform rhannu data diogel, ac mae'r broses gyfan yn seiliedig ar fodel arloesol a chymesur ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. Caiff yr holl ddata ym Manc Data SAIL ei drin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 gan gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Yn ystod y broses o wneud ffynonellau data'n ddiennw ym Manc Data SAIL, dynodir maes cysylltu dienw (ALF) i unigolion ar sail eu rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu ar sail cyfuniad o'u henw, eu dyddiad geni a'u côd post. Mae'r fethodoleg hon o wneud data'n ddiennw a'i gysylltu wedi cael ei disgrifio eisoes.<sup>1</sup> Nid oes gan brosiectau ac ymchwilyddwyr fynediad at ddata y gellir ei ddefnyddio i adnabod unigolion. Gellir defnyddio pob ALF i gysylltu ffynonellau data ym Manc Data SAIL - gellir gweld rhestr o'r ffynonellau data a'r metaddata sydd ar gael ar wefan Banc Data SAIL a thrwy'r porth arloesi:

Rheolwr Asedau SAIL

<https://data.ukserp.ac.uk/Organisation/Index/0>

Porth Data Iechyd

<https://web.www.healthdatagateway.org>

### Grŵp Defnyddwyr Data Gofal Cymdeithasol Plant a Chyfiawnder Teuluol (Cymru)

Sefydlwyd grŵp defnyddwyr data gofal cymdeithasol plant a chyfiawnder teuluol gan yr FJDP a chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gydweithio'n agos â Grŵp Defnyddwyr Data Gofal

Cymdeithasol Lloegr, a arweinir gan gydweithwyr ym mhrifysgolion Rhydychen ac UCL. Diben penodol grŵp Cymru yw cefnogi ac adeiladu galluedd y gymuned ymchwilwyr a dadansoddwyr sy'n dymuno defnyddio data Cafcass a data cysylltiedig ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg a data demograffig.

## Adrodd ar ymchwil a'i chyhoeddi: safonau

Caiff holl allbynnau'r FJDP eu llywio drwy gydweithredu agos â darparwyr data, ymarferwyr a chlinigwyr. I sicrhau uniondeb a chredadwyaeth ymchwil, dylai'r holl gyhoeddiadau fod yn dryloyw am fethodoleg ac unrhyw gyfyngiadau astudiaeth. Gan ystyried yr ymrwymiad cynyddol i gyhoeddi deuol a'r angen i wneud ymchwil ar gael ar gyfer defnyddwyr academiaidd, proffesiynol, polisi a lleys, bydd angen addasu'r disgrifiad o'r fethodoleg at ddibenion penodol. Caiff holl adroddiadau'r FJDP eu hadolygu gan academyddion eraill yn y maes a chan arbenigwyr polisi/ymarfer a'u rhannu â CAFCCASS cyn eu cyhoeddi. Pan fydd yr FJDP yn cyhoeddi ymchwil mewn cyfnodolion gwyddonol, bydd aelodau'r tîm yn glynu wrth bolisiau a gweithdrefnau adolygu gan gymheiriaid y cyfnodolyn unigol.

Darperir cyngor isod ar gyfer adroddiadau polisi ac erthyglau mewn cyfnodolion academiaidd, gan gynnwys polisi ar awduraeth.

### Ar gyfer adroddiadau

Dylai adroddiadau a phapurau briffio hygyrch gynnwys fersiwn wedi'i chwtoegi o'r dulliau, ond rhaid nodi'n glir bob cymeradwyaeth a roddwyd i'r prosiect (moeseg a llywodraethu), amcanion y prosiect, yr holl ffynonellau data, materion o ran ansawdd data, yr holl ddiffiniadau a mesurau, dulliau dadansoddi ac unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas â hyn, a'r broses adolygu gan gymheiriaid. Mae atodiad technegol ategol yn ffordd ddefnyddiol o ddarparu deunydd atodol.

### Ar gyfer erthyglau mewn cyfnodolion

Mae datganiad STROBE2 (The strengthening of the Reporting of Observational Studies in Epidemiology) yn darparu rhestr wirio o'r eitemau yr argymhellir eu cynnwys mewn astudiaethau arsylwi, o ran teitl a chrynodeb yr erthygl, y rhagarweiniad, y dulliau, y canlyniadau, y drafodaeth a gwybodaeth arall.

Dylid ymgynghori hefyd â Datganiad RECORD<sup>3</sup> (The Reporting of studies Conducted using Observational Routinely collected Data) sy'n ymdrin â materion adrodd penodol sy'n berthnasol i ymchwil sy'n defnyddio data iechyd a gesglir yn rheolaidd.

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth (2019) hefyd ar gyfer gweithio gyda data gweinyddol, gan gynnwys arweiniad ar werthuso ansawdd a chysylltu â darparwyr data;

[https://osr.statisticsauthority.gov.uk/wp-content/uploads/2019/02/qualityassurancetoolkit\\_updated\\_Feb19\\_2.pdf](https://osr.statisticsauthority.gov.uk/wp-content/uploads/2019/02/qualityassurancetoolkit_updated_Feb19_2.pdf)

Mae'r Bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol hefyd yn cyhoeddi nifer helaeth o adnoddau: <https://www.adruk.org>

Rhoddir arweiniad cyffredinol ar gyhoeddi a pholisi awduraeth isod:

Rhaid i awduron:

- Ddangos bod y gwaith wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan bwyllgorau moesegol perthnasol neu ddarparu rhesymau pam nad yw hyn wedi'i wneud;
- Cyflwyno gwaith gwreiddiol nad yw wedi cael ei gyhoeddi eisoes ac nad yw'n cael ei gyflwyno i'w gyhoeddi'n rhywle arall;
- Darparu caniatâd ysgrifenedig ar gyfer defnyddio tablau neu ddelweddau neu ddyfyniadau sylweddol nad ydynt yn waith yr awduron;
- Sicrhau nad oes dim byd enllibus yn y gwaith;
- Sicrhau nad yw'r gwaith yn amharu ar hawliau eraill, gan gynnwys hawliau i breifatrwydd a hawliau eiddo deallusol;
- Sicrhau bod gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosiadol wedi'i amlygu'n glir wrth gyflwyno'r deunydd (byddai hyn yn cynnwys cymorth ariannol);
- Cydnabod unrhyw gyfyngiadau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio data gweinyddol.<sup>3</sup>
- Cysylltu â'r tîm FJDP i nodi a chywiro unrhyw wallau perthnasol wrth iddynt ddod i'r amlwg, boed hyn cyn cyhoeddi eu gwaith neu ar ôl ei gyhoeddi.

### Cydnabyddiaethau / Awduraeth

- Rhaid i awduron gydnabod gwaith gan eraill sydd wedi cyfrannu at yr ymchwil/dadansoddiad/adroddiad.
- Dylai'r awduraeth gydymffurfio â pholisi cyfredol (yr FJDP neu sefydliadau eraill). Dylai awduraeth papurau gwyddonol fodloni meini prawf cyfnodolion; gweler, er enghraifft, ganllawiau Pwyllgor Rhyngwladol y Golygyddion Cyfnodolion Meddygol.
- Dylid cydnabod cyllidwyr hefyd.

*Ar gyfer ymchwilwyr yr FJDP, dylai'r cydnabyddiaethau fod fel a ganlyn:*

Nod Nuffield Family Justice Observatory (Nuffield FJO) yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posib ar gyfer plant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Nuffield FJO yn darparu dadansoddiadau ac ymchwil hygyrch i ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Nuffield FJO gan y Nuffield Foundation, ymddiriedolaeth elusenol annibynnol a chanddi genhadaeth i wella lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, ym meysydd addysg, lles a chyfiawnder yn bennaf. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Y Nuffield Foundation yw sefydlwr a chyd-sefydlwr yr Ada Lovelace Institute a'r Nuffield Council on Bioethics.

Mae Nuffield FJO wedi ariannu'r prosiect hwn (FJO/43766), ond mae'r barnau a fynegir yn eiddo'r awduron ac nid ydynt o angenrheidrwydd wedi'u rhannu gan Nuffield FJO na'r Sefydliad.

*Ar gyfer yr holl ymchwilwyr eraill a gefnogir gan yr FJDP:*

Cefnogwyd y gwaith hwn gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe gyda Cafcass a Cafcass Cymru'n rhanddeiliaid

---

<sup>3</sup> Johnson RD, Ford D V, Broadhurst K, *et al.* Data Resource: population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *Int J Popul Data Sci* 2020; **9**: 1339

integrol. Caiff ei ariannu gan Nuffield Family Justice Observatory ac mae'n darparu dadansoddiad blaengar i NFJO am y system cyfiawnder teuluol.

- Cydnabyddiaethau SAIL:

"Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data dienw a gedwir yn y Banc Data o Wybodaeth Ddienw wedi'i Chysylltu'n Ddiogel (SAIL). Hoffem gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n sicrhau bod data dienw ar gael at ddibenion ymchwil." Dylai cyhoeddiadau ddyfynnu cyhoeddiadau gwreiddiol perthnasol SAIL hefyd:

- Ford DV, Jones KH, Verplancke JP, Lyons RA, John G, Brown G, Brooks CJ, Thompson S, Bodger O, Couch T, Leake K. The SAIL Databank: building a national architecture for e-health research and evaluation. BMC Health Services Research 2009;9:157 <http://www.biomedcentral.com/1472-6963/9/157>
- Lyons RA, Jones KH, John G, Brooks CJ, Verplancke JP, Ford DV, Brown G, Leake K. The SAIL databank: linking multiple health and social care datasets. BMC Medical Informatics and Decision Making 2009; 9:3. <http://www.biomedcentral.com/1472-6947/9/3>
- Jones KH, Ford DV, Jones C, D'Silva R, Thompson S, Brooks CJ, Heaven ML, Thayer DS, McNerney CL a Lyons RA. A case study of the Secure Anonymous Information Linkage (SAIL) Gateway: a privacy\_protecting remote access system for health\_related research and evaluation, Journal of Biomedical Informatics: special issue on medical data privacy (Awst 2014) <http://dx.doi.org/10.1016/j.jbi.2014.01.003>
- Jones KH, Ford DV, Thompson S a Lyons RA (2019) A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. IJPDS, 2:4, doi: <https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134>

Os ydych yn cwblhau ymchwil ar sail RALF/ddaeryddol:

- Rodgers, S.E., Demmler J., Dsilva R., Lyons R. Health and Place. 28 Medi 2011, Protecting health data privacy while using residence-based environment and demographic data. Health and Place doi: 10.1016/j.healthplace.2011.09.006
- Rodgers SE, Lyons RA, Dsilva R, Jones KH, Brooks CJ, Ford DV, John G, Verplancke JP. Residential Anonymous Linking Fields (RALFs): a novel information infrastructure to study the interaction between the environment and individuals' health. Journal of Public Health (Oxf). Rhag 31 (4): 582-588, 2009.

### Lliniaru risg datgelu ym mhob allbwn

Rhaid cyflwyno allbynnau sy'n deillio o ddadansoddi data (megis tablau, graffiau ac allbynnau ystadegol eraill) drwy broses rheoli datgeliad SAIL, sef y weithdrefn 'data out' sy'n gofyn bod dau adolygydd o dîm rheoli datgeliad SAIL yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cais ar sail proses a gymeradwywyd gan y DEA (Deddf yr Economi Ddigidol). Os bydd y ddau adolygydd hyn yn anghytuno, bydd trydydd adolygydd o grŵp uwch-ddadansoddwyr SAIL yn adolygu ac yn ystyried y cais hefyd. Yn dilyn y broses adolygu ac ystyried, bydd yr holl geisiadau'n cael eu tynnu o amgylchedd Porth SAIL sy'n diogelu preifatrwydd i'w defnyddio mewn cyhoeddiadau, adroddiadau ac allbynnau cysylltiedig. Caiff yr holl allbynnau eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ynghylch rheoli datgeliad, h.y. nid ydynt yn cynnwys niferoedd bach nac yn datgelu'n anfwriadol wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolion.

### Lledaenu

Dylid anfon copi o bob adroddiad, papur briffio, erthygl cyfnodolyn ac allbwn arall a gynhyrchir gan yr FJDP neu a gefnogir gan yr FJDP at Jane Huddleston (Swyddog Prosiect, FJDP) [j.huddleston5@lancaster.ac.uk](mailto:j.huddleston5@lancaster.ac.uk).

### Cyfeiriadau

1. Jones KH, Ford DV, Thompson S and Lyons RA (2019) A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. IJPDS, 2:4, doi: <https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134>
2. von Elm E, Altman DG, Egger M, Pocock SJ, Gøtzsche PC, Vandenbroucke JP; STROBE Initiative. The Strengthening the Reporting of Observational Studies in Epidemiology (STROBE) Statement: guidelines for reporting observational studies. Int J Surg. 2014 Rhag;12(12):1495-9.
3. Benchimol EI, Smeeth L, Guttman A, Harron K, Moher D, Petersen I, Sørensen HT, von Elm E, Langan SM; Pwyllgor Gwaith RECORD The REporting of studies Conducted using Observational Routinely-collected health Data (RECORD) statement. PLoS Med. 2015 Hyd 6;12(10):e1001885.
4. International Committee of Medical Journal Editors (ICMJE) – see <http://www.icmje.org/recommendations/browse/roles-and-responsibilities/defining-the-role-of-authors-and-contributors.html>